National Autistic Society | EarlyBird Plus Licensed

# RHAGLEN AR-LEIN CYMORTH CYNNAR A MWY SIR FYNWY

**Rhaglen Ar-lein Cymorth Cynnar a Mwy**

Rhaglen wyth sesiwn ar-lein ar gyfer rhieni/gofalwyr plant (4-9 oed) sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.

## Beth yw’r Rhaglen Ar-lein Cymorth Cynnar a Mwy?

Mae ein rhaglen ar-lein Cymorth Cynnar a Mwy yn rhaglen hyfforddi deg wythnos o wyth sesiwn o tua 2 awr o hyd yr un. Mae'n darparu cefnogaeth i'r rhieni/gofalwyr hynny y gallai eu plentyn fod wedi cael diagnosis diweddarach.

## Pwy all fynychu'r rhaglen?

Gall un neu ddau o oedolion allweddol fynychu'r rhaglen, o deuluoedd sydd â phlentyn rhwng pedair a naw oed, sydd naill ai â diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistiaeth neu sy'n mynd drwy'r broses ddiagnostig. Rydym yn gobeithio gwahodd aelod o staff ysgol i ymuno â chi ar gyfer hyn.

## Pryd a ble mae'r sesiynau'n cael eu cynnal?

Cynhelir yr wyth sesiwn grŵp yn wythnosol gan ddefnyddio Microsoft Teams, ar amseroedd y cytunwyd arnynt. Mae pob sesiwn yn para tua 2 awr, gydag egwyl. Ein nod yw cael sgwrs dros y ffôn, ymweliad cartref neu gyfarfod ar-lein gyda rhieni sy'n ofalwyr sy'n cymryd rhan.

## Beth yw amcanion y rhaglen?

Grymuso rhieni/gofalwyr.
Darparu dealltwriaeth o awtistiaeth.
Annog rhannu gwybodaeth.

## Beth fyddwn ni'n dysgu amdano?

Gwella eich dealltwriaeth o awtistiaeth eich plentyn.
Gwella cyfathrebu gyda'ch plentyn.
Datblygu strategaethau i achub y blaen ar ymddygiad problemau, a/neu reoli'r rhai sy'n digwydd.

## Tîm DerynCynnar Plws – Sir Fynwy

Caiff y rhaglen ei rhedeg gan Seicolegwyr Addysgol o Sir Fynwy (Stephen Trow a Tanya Walters) a'r Athrawes Ymgynghorol Anghenion Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar (Ruth Davies). Mae gennym i gyd brofiad a dealltwriaeth o awtistiaeth ac ieuenctid gydag awtistiaeth mewn ysgolion a'r gymuned. Cawsom i gyd ein hyfforddi gan Ganolfan DerynCynnar y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol yn Ne Swydd Efrog i fedru cyflawni'r rhaglen.



**Stephen Trow – Seicolegydd Addysgol**

Rwyf wedi gweithio fel Seicolegydd Addysgol yn Sir Fynwy ers 2007 a gweithiais yng Nghaerffili a Swydd Lincoln cyn hynny. Rwyf wedi gweithio gydag amrywiaeth o blant gydag awtistiaeth/anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, eu teuluoedd a lleoliadau. Rwyf wedi bod yn rhan o dîm yn cyflwyno'r rhaglen DerynCynnar Plws yn Sir Fynwy ers 2014. Rwy'n wirioneddol fwynhau y cyswllt a'r meithrin hyder a ddaw o'r rhaglen ar gyfer rhieni/gofalwyr a staff.



**Ruth Davies – Athrawes Ymgynghorol Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar**

Ymunais ag awdurdod lleol Sir Fynwy gan weithio o fewn ac wedyn yn rheoli'r Tîm Anawsterau Dysgu Penodol. Fe wnes hefyd ddod yn Swyddog Cyswllt Anghenion Addysgol Arbennig Blynyddoedd Cynnar, gan weithio gyda lleoliadau nas cynhelir yn Sir Fynwy. O fis Medi 2021, roeddwn yn un o'r Athrawon Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar gan weithio'n llwyr o fewn yr ardal. Mae gennyf brofiad dysgu eang ac rwyf wedi gweithio gyda phobl ifanc gydag amrywiaeth o wahaniaethau, yn cynnwys rhai gydag Awtistiaeth. Hyfforddais i gyflwyno DerynCynnar Plws yn 2014 ac wedi bod yn helpu i gyflwyno'r rhaglen bob blwyddyn ers hynny. Mae'n wych gweitthio gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill i'w helpu drwy DerynCynnar Plws.



**Tanya Walters – Seicolegydd Addysgol**

Rwyf wedi gweithio gyda Gwasanaeth Seicoleg Addysgol Sir Fynwy ers mis Ionawr 2020, ar ôl symud i Gymru o swydd yn Swydd Caerloyw, lle roedd gennyf rôl arbenigol yn gweithio gyda disgyblion gydag anghenion awtistiaeth/cyfathrebu. Mae hwn yn faes o ddiddordeb neilltuol i fi, ac rwyf wrth fy modd yn cefnogi teuluoedd/lleoliadau gydfa'u plant awtistig arbennig iawn ac unigryw.

**Cysylltwch â stephentrow@monmouthshire.gov.uk 01633 644524 i gael mwy o wybodaeth.**